



Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD a'r RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

Sut rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion

Rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion gennych yn uniongyrchol a thrwy eu hysgolion cynradd.

Mae data disgyblion yn hanfodol ar gyfer defnydd gweithredol yr ysgol. Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth am ddisgyblion a roddwch i ni yn orfodol, gofynnir am rywfaint ohoni'n wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data, byddwn yn eich hysbysu pan yn casglu gwybodaeth, a oes gofyn i chi ddarparu gwybodaeth benodol am ddisgyblion i ni neu a oes gennych ddewis yn hyn o beth. Os oes dewis, byddwn yn dweud wrthy ch beth sydd angen i chi ei wneud os nad ydych am rannu'r wybodaeth hon gyda ni.

Pam rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion

Ein prif sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu'r wybodaeth hon yw:

- Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'r gyfraith
- Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol

Rydym yn prosesu eich gwybodaeth yn unol â

- Deddf Addysg 1996
- Deddf Plant 1989

Mae'r data personol a gesglir yn hanfodol er mwyn i'r ysgol gyflawni ei swyddogaethau swyddogol a bodloni gofynion cyfreithiol.

O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon lle:

- rydych wedi rhoi eich caniatâd penodol i ni brosesu'r wybodaeth personol hon
- mae angen i ni amddiffyn buddiannau hanfodol eich plentyn

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion at y dibenion canlynol:

- i gefnogi dysgu disgyblion
- i fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrhaeddiad disgyblion
- i ddarparu gofal bugeiliol, gwasanaethau lles ac iechyd priodol
- i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- i gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, neu fanylion cyswllt brys)
- i gyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnom gan Lywodraeth Cymru

Data categori arbennig

Yn ogystal â'r sail gyfreithiol i brosesu data personol, mae categorïau arbennig o ddata personol yn gofyn am amod ychwanegol ar gyfer prosesu o dan Erthygl 9 o GDPR y DU. Mae'r seiliau y gallwn ddibynnu arnynt yn cynnwys:

- a) Mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd penodol i brosesu'r categorïau arbennig hynny o ddata personol at un neu fwy o ddibenion penodedig;
- b) Mae prosesu yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau hanfodol yr unigolyn neu berson arall;
- c) Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol
- d) Am resymau meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, iechyd neu ofal cymdeithasol

Mae'r seiliau hyn yn cynnwys y canlynol

- Dibenion statudol a llywodraethol
- Diogelu plant neu unigolion sydd mewn perygl
- Cydraddoldeb o ran cyfleoedd neu driniaeth

Y categorïau o wybodaeth am ddisgyblion rydyn ni'n eu prosesu:

Manylion personol fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt rhieni a gofalwyr;

- Gwybodaeth am unrhyw anghenion dysgu ychwanegol
- Gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnol a chenedlaethol;
- Gwybodaeth am darddiad ethnig a hunaniaeth genedlaethol plant a phobl ifanc (dim ond i baratoi crynodeb o ddadansoddiadau ystadegol y defnyddir hyn);
- Manylion am statws mewn fudo plant a phobl ifanc (dim ond i baratoi crynodeb o ddadansoddiadau ystadegol y defnyddir hyn);
- Gwybodaeth feddygol sydd ei hangen i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel tra yn ein gofal
- Gwybodaeth am bresenoldeb ac unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd;
- Gwybodaeth am waith y gwasanaethau cymdeithasol mewn cyswllt â phlant a phobl ifanc lle mae angen hyn ar gyfer eu gofal

Sut rydym yn storio data disgyblion

- Er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth am ddisgyblion yn cael ei chadw'n ddiogel, mae gennym y rheolaethau/cyfyngiadau canlynol ar waith:
- ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben heblaw'r rhai a nodir yn yr hysbysiad hwn
- bydd y wybodaeth yn cael ei chadw o fewn systemau/lleoliadau diogel, gyda lefelau priodol o ddiogelwch, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol
- dim ond at ddibenion cyfreithlon a gyda lefel briodol o ddiogelwch, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol, y caiff y wybodaeth ei rhannu
- dim ond am y cyfnodau y cytunwyd arnynt yn Atodlen Gadw Cyngor Dinas Casnewydd y caiff y wybodaeth ei chadw, ac ar ôl hynny caiff ei dinistrio. Mae'r Atodlen Gadw ar gael ar gais
- bydd y wybodaeth yn cael ei chadw, ei defnyddio a'i rhannu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. (GDPR)

Gyda phwy rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn arferol gyda:

- Ysgolion y mae disgyblion yn eu mynychu ar ôl ein gadael
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (archwiliadau iechyd ysgol)
- Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Addysg
- ParentPay
- SIMS

- Evolve
- Canolfannau Addysg Awyr Agored Preswyl
- Colorfoto
- SRS
- Byrddau Arholi
- HWB
- Gyrfa Cymru
- Chartwells
- Civica
- SMID
- Urdd

Pam rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion ag unrhyw un heb ganiatâd oni bai bod y gyfraith a'n polisiau yn caniatáu inni wneud hynny. Pan fyddwch yn rhoi eich caniatâd i wybodaeth eich plentyn gael ei chadw a/neu ei rhannu at unrhyw ddiben, gallwch dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd, trwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data a enwir isod.

Mae'n ofynnol i ni, yn ôl y gyfraith, drosglwyddo gwybodaeth benodol am ein disgyblion i Gyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru. Dim ond at ddiben penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu data ac am gyfnod cyfyngedig o amser, ac ar ôl hynny rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi'i ddiinstrio. Rhaid i unrhyw ddadansoddiad a gynhyrchir ddilyn rheolau datgelu Llywodraeth Cymru i sicrhau na ellir adnabod disgyblion unigol. At ddibenion ymchwil ehangach nag addysg, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio technegau sy'n sicrhau bod y data'n cael ei ddiennwi cyn i unrhyw ymchwil ddigwydd. Nid yw data dienw yn cael ei gyfrif fel data personol gan nad oes modd ei adnabod, felly mae y tu allan i reoliadau GDPR y DU.

Am ba hyd y cedwir y wybodaeth?

Cedwir y data nes penblwydd y disgybl yn 25 oed neu am hyd y meini prawf sy'n sail i'r rheoliad statudol. Ar ôl y pwynt hwn, caiff y data ei ddiinstrio'n ddiogel neu gellir ei ddiennwi yn unol ag arferion gorau a'i ddefnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

Gofyn am fynediad at eich data personol

Os hoffech ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ysgol isod.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Sylwch nad yw'r holl hawliau hyn yn ddiamod a bydd angen i ni ystyried eich cais ar ôl ei dderbyn. Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â'r ysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Mae gennych yr hawl i ofyn am:

- gywiro eich data os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
- dileu eich data;
- cyfyngu ar brosesu eich data;
- arfer eich hawl i gludadwyedd data;
- gwrthwynebu'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Tynnu caniatâd yn ôl a'r hawl i gyflwyno cwyn

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio eich data, mae gennych yr hawl i gwyno wrthym ni.

Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â'r ysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni all yr ICO wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi bod drwy ein gweithdrefn gwyno. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

The Information Commissioners Office,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF.

Swyddog Diogelu Data

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yw'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Swyddog Diogelu Data
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR
Ebostl: information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Manylion cyswllt yr ysgol

Mr Ryan Owen
Rheolwr Busnes yr Ysgol
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
Ffordd Duffryn
Casnewydd
NP10 8BX
Ebost: gwent.iscoed@ysgolioncasnewydd.cymru
Ffôn: 01633 851614

Diweddarwyd diwethaf

Efallai y bydd angen i ni ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd, felly rydym yn argymhell eich bod yn ailedrych ar y wybodaeth hon bob hyn a hyn. Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ym mis Chwefror 2026 gan Mrs Eirian Jones, Pennaeth a Mr Ryan Owen, Rheolwr Busnes yr Ysgol.